Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Mawrth 2019

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn ymateb i'r pwyntiau gweithredu a gododd o gyfarfod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 11 Mawrth.

Yn dilyn cais y Pwyllgor am agendâu Pwyllgor Masnach ac Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Paratoi) Cabinet Llywodraeth y DU, ysgrifennais at David Lidington, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn am y mater hwn. Fe fyddaf, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fyddaf yn cael ymateb.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am wybodaeth ynghylch effaith economaidd ymadael heb gytundeb, a nifer o ffigurau ar gyfer Cymru. Atodaf bapur a gafodd ei baratoi gan y Prif Economegydd yn dilyn Datganiad y Gwanwyn y Canghellor, ar oblygiadau economaidd posib Brexit heb gytundeb i Gymru. Sylwch ein bod yn rhannu'r papur hwn yn anffurfiol â'r Pwyllgor ar hyn o bryd, bydd yn cael ei gyhoeddi dros y diwrnodau nesaf.

Yn unol â chais y Pwyllgor, rwy'n atodi copi o'm llythyr at yr Athro Manning, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo, ynghylch yr alwad am dystiolaeth ar y rhestr o swyddi lle mae prinder.

Yn olaf, gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch y cyllid ychwanegol y soniais amdano ar gyfer Fforymau Cydnerthedd Awdurdodau Lleol. Ar 11 Mawrth, cyhoeddwyd hyd at £500k o gyllid ar gyfer Fforymau Cydnerthedd Lleol ar draws Cymru. Yn bennaf, bydd y cyllid hwn yn helpu'r Fforymau i wella eu gallu cyfyngedig i gyflawni eu swyddogaethau o ran trefniadau gorchymyn, rheoli a chydlynu Operation Yellowhammer yng Nghymru.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i ymwneud â'r Pwyllgor wrth i ni symud yn agosach at y dyddiad pan fydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Yn gywir,

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.